CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Polisi Mynediad Ysgolion

# 2027-28

**Ynglŷn â'r polisi hwn**

Mae'r Polisi Mynediad yn anelu at sefydlu trefniadau sydd:

- Yn glir, yn wrthrychol ac yn rhoi cyfle teg o le ysgol boddhaol i bob plentyn
- Yn rhoi gwybodaeth lawn ar gyfer dewis gwybodus
- Yn sicrhau gweithdrefnau mynediad lleol sydd wedi eu cydlynu'n dda ac yn hawdd eu dilyn gyda'r lleiafswm o fiwrocratiaeth ac sy'n rhoi'r cyfle i rieni gael eu dewis ysgol
- Yn rhoi hawl apelio statudol effeithiol os nad yw rhieni wedi eu bodloni.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Y Gwasanaeth Dysgu yw'r awdurdod mynediad ar gyfer ysgolion y sir. Mae'n gweithredu'n unol â gofynion adran 84 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Y Ddeddf), fel y'i diwygiwyd gan adran 40 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, ac o fewn y canllawiau a ddarperir gan God Statudol Llywodraeth Cymru, 005/2013, Gorffennaf 2013. Crëwyd y Polisi Mynediad hwn yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion.

1.2 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu'r trefniadau ar gyfer mynediad i bob un o'i 37 ysgol gynradd gymunedol, ei 2 ysgol gynradd wirfoddol dan reolaeth, ei 5 ysgol uwchradd a'i un ysgol arbennig. Nid oes gan benaethiaid yr ysgolion unrhyw ran yn y broses mynediad ac ni fyddant yn trafod argaeledd lleoedd gyda rhieni. Fel ysgol dan gymorth gwirfoddol, corff llywodraethol Ysgol Gynradd y Santes Fair yw ei hawdurdod mynediad perthnasol.  Fel ysgol sefydledig, y corff llywodraethol yn Ysgol Sefydledig Caergeiliog yw'r awdurdod mynediad ar ei chyfer.

1.3 Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion statudol ac yn rhoi cydnabyddiaeth lawn i fynegiant dewis rhieni lle bynnag y bo'n bosibl. Bydd hefyd yn ystyried y goblygiadau i adnoddau'r Cyngor a'r effaith ar bolisïau addysgol eraill.
Pan fo rhiant neu berson ifanc yn mynegi dewis yn unol â'r trefniadau hynny, mae'n rhaid i ALlau a chyrff llywodraethu gydymffurfio â'r dewis hwnnw yn amodol ar yr eithriadau yr amlinellir yn Neddf 3 1998. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

- Ble byddai cydymffurfio â'r dewis yn niweidiol i ddarpariaeth addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau (gan gynnwys niwed y gallai godi drwy orfod cymryd mesurau perthnasol i sicrhau cydymffurfiad â'r cyfyngiad maint dosbarth babanod).
- Ble mae trefniadau am fynediad i chweched dosbarth ysgol yn llwyr seiliedig ar ddethol drwy gyfeiriad at allu neu ddawn ac y byddai cydymffurfio â'r dewis yn anghytuno â'r dethol o dan y trefniadau hynny.
- Ble mae plentyn wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy neu fwy o ysgolion a bod y gwaharddiad diweddaraf wedi digwydd yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

1.3.1 Mae gan bob ysgol ddalgylch diffiniedig, a chedwir mapiau o'r ffiniau yn y Gwasanaeth Dysgu neu yn yr ysgolion unigol. Gellir hefyd cael mynediad atynt drwy MapMôn ar wefan y Cyngor. Mae dalgylchoedd ysgolion yn llywio polisïau a gweithdrefnau mynediad a chludiant ysgol ond nid yw byw o fewn dalgylch arbennig yn gwarantu lle yn ysgol y dalgylch hwnnw.

### 1.5 Rhif Mynediad

1.5.1 Mae gan bob ysgol hefyd rif mynediad (Rhif Mynediad Cyhoeddedig neu PAN) mewn perthynas â'r oedran y derbynnir disgyblion yn arferol. Ni chaiff y rhif mynediad fod yn is na'r rhif safonol ond gellir ei osod yn uwch na'r rhif safonol. Cyn pennu neu newid rhif mynediad ysgol, bydd yr awdurdod mynediad yn ymgynghori â'r corff llywodraethol/awdurdod perthnasol drwy gyfrwng y Fforwm Mynediad.

Cyfrifir rhif mynediad pob ysgol drwy ddefnyddio'r dull asesu capasiti fel yr amlinellir yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru" – 021/2011.

1.5.2 Unwaith y mae rhif mynediad wedi ei osod mae'n rhaid i'r awdurdod mynediad barchu'r rhif hwnnw. Cyhoeddir y rhifau hyn ar wefan y Cyngor dan yr adran Mynediad i Ysgolion, a gellir eu gweld yn Atodiad 1 o'r Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni. Ni dderbynnir disgyblion dros y rhif cyhoeddedig oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol a bod y Cyngor yn fodlon na fyddai mynediad o dan amgylchiadau o'r fath yn niweidio addysg effeithlon a defnydd effeithlon o adnoddau.

1.5.3 Os yw'r nifer o geisiadau am fynediad i unrhyw grŵp blwyddyn mewn ysgol yn llai na rhif mynediad yr ysgol honno, bydd y Cyngor yn derbyn pob disgybl sydd wedi gwneud cais am fynediad ac eithrio categorïau penodol, h.y., rhai sydd wedi cael eu gwahardd ddwywaith.

1.5.4 Mae'n ofynnol i awdurdodau mynediad gadw golwg ar rifau mynediad a bydd unrhyw gynnig i newid y rhif yn amodol ar ymgynghoriad.

## 2. Gweithdrefnau Mynediad

Ceir tri phrif gategori mynediad i ysgolion:

### 2.1 Cylch Mynediad Blynyddol

Mae hyn yn cwmpasu pob disgybl sydd i fod i newid ysgol ym mis Medi bob blwyddyn ac yn cynnwys:

- mynediad i ddosbarth meithrin ysgol
- mynediad i ddosbarth derbyn ysgol
- trosglwyddo o'r ysgol gynradd (blwyddyn 6) i'r ysgol uwchradd (blwyddyn 7).

### 2.2 Mynediad i ddosbarth meithrin ysgol

Ceir ar hyn o bryd 38 o ysgolion yn Ynys Môn sy'n cynnig addysg feithrin ran-amser i blant o'r mis Medi'n dilyn eu 3$^{ydd}$ pen-blwydd. Darperir gwybodaeth a rhoddir cyhoeddusrwydd i drefniadau ym mis Medi bob blwyddyn i alluogi rhieni i wneud cais am le mewn ysgol o'u dewis. Mae ffurflenni cais ar gael ar wefan y Cyngor.

Dylai rhieni sy'n dymuno gwneud cais am fynediad rhan amser i ysgol y tu allan i Ynys Môn gysylltu ag adran addysg yr awdurdod lleol perthnasol am ragor o wybodaeth.

2.2.1 Dylai rhieni sicrhau y dychwelir eu ceisiadau am fynediad erbyn y 1$^{af}$ o Chwefror i'r Gwasanaeth Dysgu.

2.2.2 Bydd y Cyngor yn dyrannu lleoedd yn unol â Meini Prawf Mynediad a Gordanysgrifio (gweler 3.4.1) cyn gynted ag y bo modd ar ôl y 1$^{af}$ o Chwefror a bydd yn hysbysu rhieni ar y 16eg o Ebrill neu'r diwrnod gwaith nesaf a yw

eu plentyn wedi cael mynediad i'r ysgol ddewisol ai peidio. Gwahoddir rhieni nad yw eu plentyn wedi cael mynediad i'w hysgol ddewisol i ddewis ysgol arall, oni bai eu bod wedi gwneud hynny eisoes. Dylid nodi nad yw'r gweithdrefnau apelio'n berthnasol ar gyfer mynediad rhan amser (gweler adran 3).

2.2.3 Mae'n hanfodol bod disgyblion sy'n dymuno mynychu ysgol y dalgylch ar sail ran-amser yn cyflwyno cais gan y bydd y rhai sydd wedi gwneud cais eisoes yn cael blaenoriaeth dros y rhai nad ydynt wedi gwneud cais. Ystyrir ceisiadau hwyr a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais pan roddir rheswm da, er enghraifft, pan fydd rhiant sengl wedi bod yn sâl ers peth amser, neu deulu newydd symud i'r ardal, neu sy'n dychwelyd o dramor, ar yr amod y derbynnir ceisiadau cyn i gynigion o leoedd gael eu gwneud. Bydd ceisiadau hwyr heb reswm da neu'r rhai a dderbynnir ar ôl i'r cynnig o leoedd gael ei wneud yn cael eu hystyried ar ôl y disgyblion hynny y cyflwynwyd eu ceisiadau cyn y dyddiad cau. Dylid nodi nad yw cyflwyno cais cyn y dyddiad cau yn gwarantu lle yn yr ysgol ddewisol.

2.2.4 Ni ddylai penaethiaid a chyrff llywodraethol roi unrhyw warant o le i rieni sy'n gwneud cais am le yn eu hysgol. Dim ond yr awdurdod mynediad all wneud penderfyniadau mewn perthynas â mynediad.

2.2.5 Nid yw lle mewn dosbarth meithrin yn gwarantu lle yn y dosbarth derbyn. Amlinellir hyn hefyd ym mharagraff 1.9 a 2.58 o'r Cod Derbyn i Ysgolion (Cymru).

## 2.3 Mynediad i ddosbarth derbyn ysgol

2.3.1 Ym mis Medi y cysylltir â rhieni plant a fydd yn yr oedran i ddechrau ysgol gynradd ar sail llawn amser yn y mis Medi'n dilyn eu 4ydd pen-blwydd ac sydd hefyd eisoes yn derbyn addysg feithrin ran amser. Bydd yr wybodaeth a rennir yn eu galluogi i wneud dewis wrth wneud cais am le mewn ysgol ym Môn. Yr unig eithriadau i fynediad yn dilyn pen-blwydd yn 4 oed fydd mewn achosion lle mae'r Cyngor o'r farn y byddai peidio â chaniatáu mynediad cynnar yn rhwystro datblygiad cymdeithasol ac/neu addysgol y disgybl yn ddifrifol yng nghyd-destun Deddf Plant 1989 neu'r Gofrestr Amddiffyn Plant. Darperir a rhoddir cyhoeddusrwydd i wybodaeth ym mis Medi bob blwyddyn i alluogi rhieni i wneud cais am le mewn ysgol o'u dewis. Mae ffurflenni cais ar gael ar wefan y Cyngor.

2.3.2 Dylid nodi bod yn rhaid gwneud cais am fynediad llawn amser ar ran plant sydd ar hyn o bryd yn ddisgyblion rhan amser yn yr ysgol. Dan reolau Llywodraeth Cymru, nid yw penderfyniad i roi mynediad i blentyn i ddosbarth meithrin mewn ysgol, nac ychwaith ydy mynychu grŵp meithrin gwirfoddol lleol, yn gwarantu lle yn y dosbarth derbyn. Mae ffurflenni cais ar gael o'r ysgol leol, o'r Gwasanaeth Dysgu neu ar wefan y Cyngor. Dylai rhieni sy'n dymuno gwneud cais am fynediad i ysgol y tu allan i Ynys Môn gysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol am ragor o wybodaeth.

2.3.3 Yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion, sy'n rhagnodi y rhoddir i rieni o leiaf 6 wythnos i gyflwyno'u cais am fynediad ysgol, dylai rhieni sicrhau bod eu ceisiadau am fynediad yn cael eu dychwelyd erbyn y 1af o Chwefror i'r Gwasanaeth Dysgu.

2.3.4 Bydd y Cyngor yn dyrannu lleoedd yn unol â'r Meini Prawf Mynediad a Gordanysgrifio (gweler 3.4.2) cyn gynted ag y bo modd ar ôl y 1af o Chwefror a bydd yn rhoi gwybod ar y 16eg o Ebrill neu'r diwrnod gwaith nesaf a yw eu plentyn wedi cael mynediad i'r ysgol ddewisol ai peidio. Gwahoddir rhieni nad yw eu plentyn wedi cael mynediad i'w hysgol ddewisol i ddethol ysgol wahanol, oni bai eu bod wedi gwneud hynny eisoes, a hysbysir hwy o'u hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod mynediad.

2.3.5 Lle cynhigir lle cyn i blentyn gyrraedd yr oedran ysgol gorfodol, mae gan y rhieni'r opsiwn o ohirio mynediad eu plentyn tan yn hwyrach yn yr un flwyddyn ysgol hyd at y tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 5 oed. Dalir y lle ar gyfer y plentyn hwnnw ac ni fydd ar gael i'w gynnig i blentyn arall.

2.3.6 Mae'n hanfodol bod disgyblion sy'n dymuno mynychu ysgol y dalgylch ar sail ran amser yn cyflwyno cais gan y bydd y rhai sydd wedi gwneud cais eisoes yn cael blaenoriaeth dros y rhai nad ydynt wedi gwneud cais. Ystyrir ceisiadau hwyr a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais pan roddir rheswm da, er enghraifft, pan fydd rhiant sengl wedi bod yn sâl ers peth amser, neu deulu newydd symud i'r ardal, neu sy'n dychwelyd o dramor, ar yr amod y derbynnir ceisiadau cyn i gynigion o leoedd gael eu gwneud. Bydd ceisiadau hwyr heb reswm da neu'r rhai a dderbynnir ar ôl i'r cynnig o leoedd gael ei wneud yn cael eu hystyried ar ôl y disgyblion hynny y cyflwynwyd eu ceisiadau cyn y dyddiad cau. Dylid nodi nad yw cyflwyno cais cyn y dyddiad cau'n gwarantu lle yn yr ysgol ddewisol.

2.3.7 Ni ddylai penaethiaid na chyrff llywodraethol roi unrhyw warant o le i rieni sy'n gwneud cais am le yn eu hysgol. Dim ond yr awdurdod mynediad all wneud penderfyniadau mewn perthynas â mynediad.

## 2.4 Trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

2.4.1 Ym mis Medi bob blwyddyn y cysylltir â rhieni plant a fydd yn yr oed i drosglwyddo i ysgol uwchradd yn Ynys Môn yn y mis Medi dilynol. Rhennir gwybodaeth â hwy er mwyn eu galluogi i ymarfer eu dewis i wneud cais am fynediad i'r ysgol uwchradd y maent yn byw yn ei dalgylch, neu ddynodi eu bod yn dymuno gwneud cais am le mewn ysgol uwchradd arall yn Ynys Môn. Dylai rhieni sy'n dymuno gwneud cais am fynediad i ysgol y tu allan i Ynys Môn gysylltu ag adran addysg yr awdurdod lleol perthnasol am ragor o wybodaeth.

2.4.2 Yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion, sy'n rhagnodi bod yn rhaid rhoi o leiaf 6 wythnos i rieni gyflwyno'u cais am fynediad ysgol, dylai rhieni sicrhau y dychwelir eu ceisiadau am fynediad i ysgolion uwchradd i'r Gwasanaeth Dysgu, Llangefni erbyn y diwrnod olaf o ysgol ym mis Rhagfyr.

2.4.3 Erbyn y diwrnod gwaith cyntaf ym mis Mawrth, rhoddir gwybod i bob rhiant sydd wedi gwneud cais am fynediad i'w plentyn i ysgol uwchradd a yw eu plentyn wedi cael ei dderbyn i'r ysgol ddewisol ai peidio. Gwahoddir rhieni nad yw eu plentyn wedi cael mynediad i'w ysgol ddewisol ddethol ysgol arall, os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes, a rhoddir gwybod iddynt am eu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod mynediad.

Ni ddylai penaethiaid na chyrff llywodraethu roi unrhyw warant o le i rieni sy'n gwneud cais am le yn eu hysgol. Dim ond yr awdurdod mynediad all wneud penderfyniadau mewn perthynas â mynediad.

## 2.5 Trosglwyddo a Symud Plant

2.5.1 Dylai rhieni sy'n dymuno trosglwyddo eu plentyn o un ysgol i'r llall tu allan i'r oed trosglwyddo arferol, neu pan mae'r teulu'n symud i gyfeiriad newydd, wneud cais yn ysgrifenedig i'r Gwasanaeth Dysgu. Bydd Polisi Mynediad a gweithdrefn apelio'r Cyngor hefyd yn berthnasol ar gyfer penderfyniadau yn yr adran hon.

Mae gan y Cyngor **15 dydd gwaith** o dderbyn y cais i ymateb iddo.

Cynghorir rhieni i beidio â throsglwyddo eu plentyn yn ystod y flwyddyn ysgol er mwyn osgoi unrhyw ymyrryd ar gyrsiau ysgol.

Bydd y meini prawf mynediad a gordanysgrifio ar gyfer meithrin, derbyn ac ysgolion uwchradd yn berthnasol ar gyfer ceisiadau i drosglwyddo rhwng ysgolion yn ystod y flwyddyn.

2.5.2 Disgyblion Allsirol
Am unrhyw geisiadau i blant nad ydynt yn byw yn y sir am fynediad i ysgol a gynhelir gan y Cyngor, dylid cysylltu â'r Gwasanaeth Dysgu am ragor o wybodaeth.

2.5.3 Ni ddylai penaethiaid na chyrff llywodraethu roi unrhyw warant o le i rieni sy'n gwneud cais am le yn eu hysgol ac ni ddylent dderbyn y plant cyn i'r Cyngor ddod i benderfyniad. Bydd y Cyngor yn cysylltu â'r ddwy ysgol yn gofyn am eu sylwadau cyn dod i benderfyniad.

## 2.6 Mynediad i Ysgol Arbennig

**Mae'r Cyngor yn cynnal un ysgol arbennig, sef Canolfan Addysg y Bont.**

2.6.1 Ceir mynediad i'r ysgol hon drwy gyfeiriad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Dysgu. Mae'r broses mynediad yn cydnabod hawliau rhieni i fynegi hoffter o ysgol a gynhelir gan y Cyngor yn unol â gofynion Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021, Deddf Addysg 1996 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae mynediad yn amodol ar drafodaethau a phenderfyniadau a wneir gan y Panel Cymedroli ADY mewn ymgynghoriad â phennaeth yr ysgol. Dylai pob disgybl a dderbynnir

fod â Chynllun Datblygu Unigol (CDU) Awdurdod er y gall rhai disgyblion gael mynediad at ddibenion asesu mewn achosion eithriadol. Mae Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2010 yn diwygio rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996. Mae adrannau mewn perthynas ag asesu ar gyfer ac amrywiad mewn datganiadau anghenion addysgol arbennig yn parhau i fod mewn grym yn rhannol.

2.6.2 Ni ddylai'r pennaeth na'r corff llywodraethu roi unrhyw warant o le i rieni sy'n gwneud cais am le yn yr ysgol ac ni ddylent ychwaith dderbyn y plant cyn i'r Cyngor ddod i benderfyniad. Ni ddylid gwneud unrhyw drefniadau i drosglwyddo'n raddol / "dod i adnabod yr ysgol newydd" cyn i'r Cyngor ddod i'w benderfyniad gyda chytundeb y ddwy ysgol. Dim ond yr awdurdod mynediad all wneud penderfyniadau mewn perthynas â mynediad.

## 3. Meini Prawf Mynediad a Gordanysgrifio o fewn y Cylch Mynediad Blynyddol

### 3.1 Mynediad rhan amser i ddosbarthiadau meithrin

Yn arferol, derbynnir disgyblion yn rhan-amser i ysgolion cynradd Ynys Môn bob blwyddyn yn y mis Medi yn dilyn eu 3ydd pen-blwydd; mae hyn ond yn berthnasol i'r 38 ysgol gynradd sydd â darpariaeth dosbarth meithrin. Ceir eithriadau i fynediad yn y mis Medi yn dilyn y 3ydd pen-blwydd mewn achosion arbennig lle mae'r Cyngor o'r farn y byddai peidio â chaniatáu mynediad cynnar yn rhwystr mawr i ddatblygiad cymdeithasol ac/neu addysgol y disgybl yng nghyd-destun Deddf Plant 1989.

### 3.2 Mynediad llawn-amser i ddosbarthiadau derbyn

Yn arferol derbynnir plant yn llawn amser i ysgolion cynradd Ynys Môn yn flynyddol yn y mis Medi yn dilyn eu 4ydd pen-blwydd. Ceir eithriadau i fynediad yn y mis Medi'n dilyn y 4ydd pen-blwydd mewn achosion arbennig lle mae'r Cyngor o'r farn y byddai peidio â chaniatáu mynediad cynnar yn rhwystr mawr i ddatblygiad cymdeithasol ac/neu addysgol y disgybl yng nghyd-destun Deddf Plant 1989.

### 3.3 Mynediad i'r ysgol uwchradd

Yn arferol derbynnir disgyblion i ysgolion uwchradd y Cyngor bob blwyddyn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 11 oed. Ceir eithriadau i fynediad yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 11 mewn achosion arbennig lle mae'r Cyngor o'r farn y byddai'n rhwystr mawr i ddatblygiad cymdeithasol ac/neu addysgol disgybl drwy beidio â throsglwyddo i'r ysgol uwchradd 12 mis yn gynharach na'r oed mynediad arferol neu drwy beidio ag aros yn yr ysgol gynradd am 12 mis yn ymhellach na'r oed trosglwyddo arferol.

### 3.4 Meini Prawf Gordanysgrifio

#### 3.4.1 Dosbarthiadau Meithrin

Os bydd nifer y ceisiadau am fynediad i'r dosbarth meithrin mewn ysgol yn fwy na rhif mynediad yr ysgol honno, yna derbynnir disgyblion hyd at y rhif mynediad yn unol â'r meini prawf a ganlyn. Mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn

fodlon bod y rhesymau a roddwyd gan y rhieni wrth ddewis ysgol yn cwrdd ag un o'r meini prawf isod, sydd wedi eu gosod yn nhrefn blaenoriaeth:

1 Plant Mewn Gofal a Phlant Mewn Gofal blaenorol.
2 Disgyblion yr argymhellir am leoliad yn yr ysgol mewn perthynas â'u hanghenion dysgu ychwanegol ble mae Cynllun Datblygu Unigol (CDU) Awdurdod neu Gynllun Meddygol Unigol (CMU) Awdurdod Addysg Lleol plentyn yn enwi ysgol benodol. Mae'n rhaid i leoliadau o'r fath gael eu cadarnhau gan ymgynghorwyr proffesiynol yr awdurdod addysg lleol.
3 Disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol sydd â brawd neu chwaer eisoes yn mynychu'r ysgol a fydd yn parhau ar gofrestr yr ysgol pan fydd y plentyn yn cychwyn.
4 Disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol.
5 Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch sydd â brawd neu chwaer eisoes yn mynychu'r ysgol a fydd yn parhau ar gofrestr yr ysgol pan fydd y plentyn yn cychwyn.
6 Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch.

Mewn sefyllfa ddadleuol o fewn unrhyw un o'r meini prawf, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion sydd a'u cartref agosaf at yr ysgol drwy'r llwybr cerdded priodol byrraf a fesurir gan fapiau swyddogol, yn dangos ffiniau'r dalgylchoedd y gellir eu gweld yn y Gwasanaeth Dysgu neu yn yr ysgol. Os oes unrhyw amheuaeth, yna gall y Cyngor drefnu i fesur y daith yn fwy manwl.

Lle gwrthodwyd mynediad i ddisgybl, bydd yr awdurdod mynediad, yn unol â'r polisi hwn, yn defnyddio'i ymdrechion gorau i esbonio ei benderfyniad yn ysgrifenedig a thrafod y dewisiadau sydd ar gael i rieni er mwyn sicrhau addysg addas ar gyfer eu plant. Nid oes hawl i apelio.

Mae brodyr a/neu chwiorydd yn cynnwys brawd neu chwaer llawn, hanner brawd neu chwaer, llys frawd neu chwaer, brawd neu chwaer wedi ei fabwysiadu neu sy'n cael ei faethu sy'n byw yn yr un tŷ.

Mewn achosion o geisiadau ar gyfer gefeilliaid neu blant genedigaeth luosog lle na all y Cyngor gynnig yr holl leoedd sy'n ofynnol, gall rhieni dderbyn y lleoedd a gynhigiwyd iddynt a derbyn lleoedd mewn ysgol arall ar gyfer y plentyn/plant sydd ar ôl. Ychwanegir y plentyn/plant at y rhestr aros a fydd yn parhau tan y 30ain o Fedi.

At ddibenion mynediad, cyfeiriad cartref plentyn yw'r cyfeiriad lle mae'n treulio'r mwyafrif o'r wythnos ysgol. Dylai rhieni sicrhau eu bod yn hysbysu'r Gwasanaeth Dysgu o unrhyw newid yn eu cyfeiriad cyn ac ar ôl y dyddiad cau. Gall y Cyngor dynnu'r cynnig o le yn ei ôl os darganfyddir bod cyfeiriad anghywir wedi ei roi.

Os yw amser y plentyn wedi'i rannu rhwng y ddau riant, cyfeiriad cartref y plentyn at ddibenion mynediad yw'r cyfeiriad lle mae'n treulio'r rhan fwyaf o'r wythnos ysgol. Mae angen i rieni sicrhau bod unrhyw newid cyfeiriad cyn ac

ar ôl y dyddiad cau yn cael ei adrodd i'r Gwasanaeth Dysgu. Gellir tynnu unrhyw le a gynhigir o ganlyniad i ddefnyddio cyfeiriad twyllodrus yn ei ôl.

### 3.4.2 Dosbarthiadau Derbyn

Os bydd nifer y ceisiadau am fynediad i'r dosbarth derbyn mewn ysgol yn fwy na rhif mynediad yr ysgol honno, yna derbynnir disgyblion hyd at y rhif mynediad yn unol â'r meini prawf a ganlyn. Mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon bod y rhesymau a roddwyd gan y rhieni wrth ddewis ysgol yn cwrdd ag un o'r meini prawf isod, sydd wedi eu gosod yn nhrefn blaenoriaeth:

1. Plant Mewn Gofal a Phlant Mewn Gofal blaenorol.
2. Disgyblion yr argymhellir am leoliad yn yr ysgol mewn perthynas â'u hanghenion dysgu ychwanegol ble mae Cynllun Datblygu Unigol (CDU) Awdurdod neu Gynllun Meddygol Unigol (CMU) Awdurdod Addysg Lleol plentyn yn enwi ysgol benodol. Mae'n rhaid i leoliadau o'r fath gael eu cadarnhau gan ymgynghorwyr proffesiynol yr awdurdod addysg lleol.
3. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol sydd â brawd neu chwaer eisoes yn mynychu'r ysgol a fydd yn parhau ar gofrestr yr ysgol pan fydd y plentyn yn cychwyn.
4. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol.
5. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch sydd â brawd neu chwaer eisoes yn mynychu'r ysgol a fydd yn parhau ar gofrestr yr ysgol pan fydd y plentyn yn cychwyn.
6. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch.

Mewn sefyllfa ddadleuol o fewn unrhyw un o'r meini prawf, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion sydd a'u cartref agosaf at yr ysgol drwy'r llwybr cerdded priodol byrraf a fesurir gan fapiau swyddogol, yn dangos ffiniau'r dalgylchoedd y gellir eu gweld yn y Gwasanaeth Dysgu neu yn yr ysgol. Os oes unrhyw amheuaeth, yna gall y Cyngor drefnu i fesur y daith yn fwy manwl.

Lle gwrthodwyd mynediad i ddisgybl, bydd yr awdurdod mynediad, yn unol â'r polisi hwn, yn defnyddio'i ymdrechion gorau i esbonio ei benderfyniad yn ysgrifenedig a thrafod y dewisiadau sydd ar gael i rieni er mwyn sicrhau addysg addas ar gyfer eu plant.  Mae hyn yn cynnwys yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor.

Mae brodyr a/neu chwiorydd yn cynnwys brawd neu chwaer llawn, hanner brawd neu chwaer, llys frawd neu chwaer, brawd neu chwaer wedi ei fabwysiadu neu sy'n cael ei faethu sy'n byw yn yr un tŷ.

Mewn achosion o geisiadau ar gyfer gefeilliaid neu blant genedigaeth luosog lle na all y Cyngor gynnig yr holl leoedd sy'n ofynnol, gall rhieni dderbyn y lleoedd a gynhigiwyd iddynt a derbyn lleoedd mewn ysgol arall ar gyfer y plentyn/plant sydd ar ôl. Ychwanegir y plentyn/plant at y rhestr aros a fydd yn parhau tan y 30ain o Fedi.

At ddibenion mynediad, cyfeiriad cartref plentyn yw'r cyfeiriad lle mae'n treulio'r mwyafrif o'r wythnos ysgol. Dylai rhieni sicrhau eu bod yn hysbysu'r Gwasanaeth Dysgu o unrhyw newid yn eu cyfeiriad cyn ac ar ôl y dyddiad cau. Gall y Cyngor dynnu'r cynnig o le yn ei ôl os darganfyddir bod cyfeiriad anghywir wedi ei roi.

Os rhennir amser plentyn rhwng y ddau riant, cyfeiriad cartref y plentyn at ddibenion mynediad yw'r cyfeiriad ble mae'n treulio'r mwyafrif o'r wythnos ysgol. Mae'n rhaid i rieni sicrhau bod unrhyw newidiadau cyfeiriad cyn ac ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hadrodd i'r Gwasanaeth Dysgu. Gellir tynnu unrhyw le a gynhigir o ganlyniad i ddefnyddio cyfeiriad twyllodrus yn ei ôl.

3.4.3 **Ysgol Uwchradd**

Os bydd nifer y ceisiadau am fynediad i flwyddyn 7 mewn ysgol yn fwy na rhif mynediad yr ysgol honno, yna derbynnir disgyblion hyd at y rhif mynediad yn unol â'r meini prawf a ganlyn. Mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon bod y rhesymau a roddwyd gan y rhieni wrth ddewis ysgol yn cwrdd ag un o'r meini prawf isod, sydd wedi eu gosod yn nhrefn blaenoriaeth:

1. Plant Mewn Gofal a Phlant Mewn Gofal blaenorol.
2. Disgyblion yr argymhellir am leoliad yn yr ysgol mewn perthynas â'u hanghenion dysgu ychwanegol ble mae Cynllun Datblygu Unigol (CDU) Awdurdod neu Gynllun Meddygol Unigol (CMU) Awdurdod Addysg Lleol plentyn yn enwi ysgol benodol. Mae'n rhaid i leoliadau o'r fath gael eu cadarnhau gan ymgynghorwyr proffesiynol yr awdurdod addysg lleol.
3. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol sydd â brawd neu chwaer eisoes yn mynychu'r ysgol a fydd yn parhau ar gofrestr yr ysgol (h.y., ym mlynyddoedd 8-11) pan fydd y plentyn yn cychwyn.
4. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol.
5. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch sydd â brawd neu chwaer eisoes yn mynychu'r ysgol a fydd yn parhau ar gofrestr yr ysgol (h.y., ym mlynyddoedd 8-11) pan fydd y plentyn yn cychwyn.
6. Disgyblion nad ydynt yn byw yn nalgylch yr ysgol ond sydd wedi mynychu ysgol gynradd yn nalgylch yr ysgol.
7. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch.

Mewn sefyllfa ddadleuol o fewn unrhyw un o'r meini prawf, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion sydd a'u cartref agosaf at yr ysgol drwy'r llwybr cerdded priodol byrraf a fesurir gan fapiau swyddogol, yn dangos ffiniau'r dalgylchoedd y gellir eu gweld yn y Gwasanaeth Dysgu neu yn yr ysgol. Os oes unrhyw amheuaeth, yna gall y Cyngor drefnu i fesur y daith yn fwy manwl.

Wrth wneud cais am le mewn ysgol uwchradd, dylai rhieni fod yn ymwybodol mai cyfeiriad y cartref sy'n dynodi dalgylch yr ysgol uwchradd, nid yr ysgol gynradd a fynychwyd gan y plentyn.

Os rhennir amser plentyn rhwng y ddau riant, cyfeiriad cartref y plentyn at ddibenion mynediad yw'r cyfeiriad ble mae'n treulio'r mwyafrif o'r wythnos ysgol. Mae'n rhaid i rieni sicrhau bod unrhyw newidiadau cyfeiriad cyn ac ar ôl

y dyddiad cau yn cael eu hadrodd i'r Gwasanaeth Dysgu. Gellir tynnu unrhyw le a gynhigir o ganlyniad i ddefnyddio cyfeiriad twyllodrus yn ei ôl.

Lle gwrthodwyd mynediad i ddisgybl, bydd yr awdurdod mynediad, yn unol â'r polisi hwn, yn defnyddio'i ymdrechion gorau i esbonio ei benderfyniad yn ysgrifenedig a thrafod y dewisiadau sydd ar gael i rieni er mwyn sicrhau addysg addas ar gyfer eu plant, gan gynnwys yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor.

Mae brodyr a/neu chwiorydd yn cynnwys brawd neu chwaer llawn, hanner brawd neu chwaer, llys frawd neu chwaer, brawd neu chwaer wedi ei fabwysiadu neu sy'n cael ei faethu sy'n byw yn yr un tŷ.

Mewn achosion o geisiadau ar gyfer gefeilliaid neu blant genedigaeth luosog lle na all y Cyngor gynnig yr holl leoedd sy'n ofynnol, gall rhieni dderbyn y lleoedd a gynhigiwyd iddynt a derbyn lleoedd mewn ysgol arall ar gyfer y plentyn/plant sydd ar ôl. Ychwanegir y plentyn/plant at y rhestr aros a fydd yn parhau tan y 30ain o Fedi.

## 4. Meini Prawf Mynediad a Gordanysgrifio yn ystod y flwyddyn ysgol

### 4.1 Ysgolion Cynradd

Os bydd nifer y ceisiadau am fynediad i unrhyw flwyddyn mewn ysgol yn fwy na rhif mynediad yr ysgol honno, yna derbynnir disgyblion hyd at y rhif mynediad yn unol â'r meini prawf a ganlyn. Mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon bod y rhesymau a roddwyd gan y rhieni wrth ddewis ysgol yn cwrdd ag un o'r meini prawf isod, sydd wedi eu gosod yn nhrefn blaenoriaeth:

1. Plant Mewn Gofal a Phlant Mewn Gofal blaenorol.
2. Disgyblion yr argymhellir am leoliad yn yr ysgol mewn perthynas â'u hanghenion dysgu ychwanegol ble mae Cynllun Datblygu Unigol (CDU) Awdurdod neu Gynllun Meddygol Unigol (CMU) Awdurdod Addysg Lleol plentyn yn enwi ysgol benodol. Mae'n rhaid i leoliadau o'r fath gael eu cadarnhau gan ymgynghorwyr proffesiynol yr awdurdod addysg lleol.
3. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol sydd â brawd neu chwaer eisoes yn mynychu'r ysgol a fydd yn parhau ar gofrestr yr ysgol pan fydd y plentyn yn cychwyn.
4. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol.
5. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch sydd â brawd neu chwaer eisoes yn mynychu'r ysgol a fydd yn parhau ar gofrestr yr ysgol pan fydd y plentyn yn cychwyn.
6. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch.

Mewn sefyllfa ddadleuol o fewn unrhyw un o'r meini prawf, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion sydd a'u cartref agosaf at yr ysgol drwy'r llwybr cerdded priodol byrraf a fesurir gan fapiau swyddogol, yn dangos ffiniau'r dalgylchoedd y gellir eu gweld yn y Gwasanaeth Dysgu neu yn yr ysgol. Os oes unrhyw amheuaeth, yna gall y Cyngor drefnu i fesur y daith yn fwy manwl.

Lle gwrthodwyd mynediad i ddisgybl, bydd yr awdurdod mynediad, yn unol â'r polisi hwn, yn defnyddio'i ymdrechion gorau i esbonio ei benderfyniad yn ysgrifenedig a thrafod y dewisiadau sydd ar gael i rieni er mwyn sicrhau addysg addas ar gyfer eu plant, gan gynnwys yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor.

Mae brodyr a/neu chwiorydd yn cynnwys brawd neu chwaer llawn, hanner brawd neu chwaer, llys frawd neu chwaer, brawd neu chwaer wedi ei fabwysiadu neu sy'n cael ei faethu sy'n byw yn yr un tŷ.

Mewn achosion o geisiadau ar gyfer gefeilliaid neu blant genedigaeth luosog lle na all y Cyngor gynnig yr holl leoedd sy'n ofynnol, gall rhieni dderbyn y lleoedd a gynhigiwyd iddynt a derbyn lleoedd mewn ysgol arall ar gyfer y plentyn/plant sydd ar ôl. Ychwanegir y plentyn/plant at y rhestr aros a fydd yn parhau tan y 30ain o Fedi.

At ddibenion mynediad, cyfeiriad cartref plentyn yw'r cyfeiriad lle mae'n treulio'r mwyafrif o'r wythnos ysgol. Dylai rhieni sicrhau eu bod yn hysbysu'r Gwasanaeth Dysgu o unrhyw newid yn eu cyfeiriad cyn ac ar ôl y dyddiad cau. Gall y Cyngor dynnu'r cynnig o le yn ei ôl os darganfyddir bod cyfeiriad anghywir wedi ei roi.

### 4.2 Ysgolion Uwchradd

Os bydd nifer y ceisiadau am fynediad i unrhyw flwyddyn mewn ysgol yn fwy na rhif mynediad yr ysgol honno, yna derbynnir disgyblion hyd at y rhif mynediad yn unol â'r meini prawf a ganlyn. Mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon bod y rhesymau a roddwyd gan y rhieni wrth ddewis ysgol yn cwrdd ag un o'r meini prawf isod, sydd wedi eu gosod yn nhrefn blaenoriaeth:

1 Plant Mewn Gofal a Phlant Mewn Gofal blaenorol.
2 Disgyblion a argymhellwyd ar gyfer lleoliad yn yr ysgol mewn perthynas â'u hanghenion meddygol neu seicolegol. Mae'n rhaid i ymgynghorwyr proffesiynol yr ALl gadarnhau lleoliadau o'r fath, e.e., y prif seicolegydd addysgol neu'r uwch swyddog meddygol iechyd.
3 Disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol sydd â brawd neu chwaer eisoes yn mynychu'r ysgol a fydd yn parhau ar gofrestr yr ysgol (h.y., ym mlynyddoedd 8-11) pan fydd y plentyn yn cychwyn.
4 Disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol.
5 Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch sydd â brawd neu chwaer eisoes yn mynychu'r ysgol a fydd yn parhau ar gofrestr yr ysgol (h.y., ym mlynyddoedd 8-11) pan fydd y plentyn yn cychwyn.
6 Disgyblion nad ydynt yn byw yn nalgylch yr ysgol ond sydd wedi mynychu ysgol gynradd yn nalgylch yr ysgol.
7 Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch.

Mewn sefyllfa ddadleuol o fewn unrhyw un o'r meini prawf, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion sydd a'u cartref agosaf at yr ysgol drwy'r llwybr cerdded priodol byrraf a fesurir gan fapiau swyddogol, yn dangos ffiniau'r dalgylchoedd y gellir eu gweld yn y Gwasanaeth Dysgu neu yn yr ysgol. Os oes unrhyw amheuaeth, yna gall y Cyngor drefnu i fesur y daith yn fwy manwl.

Lle gwrthodwyd mynediad i ddisgybl, bydd yr awdurdod mynediad, yn unol â'r polisi hwn, yn defnyddio'i ymdrechion gorau i esbonio ei benderfyniad yn ysgrifenedig a thrafod y dewisiadau sydd ar gael i rieni er mwyn sicrhau addysg addas ar gyfer eu plant, gan gynnwys yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor.

Mae brodyr a/neu chwiorydd yn cynnwys brawd neu chwaer llawn, hanner brawd neu chwaer, llys frawd neu chwaer, brawd neu chwaer wedi ei fabwysiadu neu sy'n cael ei faethu sy'n byw yn yr un tŷ.

Mewn achosion o geisiadau ar gyfer gefeilliaid neu blant genedigaeth luosog lle na all y Cyngor gynnig yr holl leoedd sy'n ofynnol, gall rhieni dderbyn y lleoedd a gynhigiwyd iddynt a derbyn lleoedd mewn ysgol arall ar gyfer y plentyn/plant sydd ar ôl. Ychwanegir y plentyn/plant at y rhestr aros a fydd yn parhau tan y 30ain o Fedi.

At ddibenion mynediad, cyfeiriad cartref plentyn yw'r cyfeiriad lle mae'n treulio'r mwyafrif o'r wythnos ysgol. Dylai rhieni sicrhau eu bod yn hysbysu'r Gwasanaeth Dysgu o unrhyw newid yn eu cyfeiriad cyn ac ar ôl y dyddiad cau. Gall y Cyngor dynnu'r cynnig o le yn ei ôl os darganfyddir bod cyfeiriad anghywir wedi ei roi.

## 5. Rhestr Aros

Bydd y Cyngor yn cynnal rhestr aros o ymgeiswyr y gwrthodwyd mynediad iddynt i'r ysgol ddewisol. Os bydd lle yn dod ar gael yn yr ysgol, rhoddir mynediad i blant o'r rhestr aros i gymryd unrhyw leoedd yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio. Nid yw'r dyddiad a dderbyniwyd y cais yn penderfynu trefn blaenoriaeth ar gyfer unrhyw ddyraniad. Mewn achosion lle gwrthodir mynediad, gofynnir i rieni hysbysu'r awdurdod mynediad priodol yn ysgrifenedig a ydynt yn dymuno i'r plentyn gael ei roi ar restr aros am leoedd yr ysgol. Bydd yr ALl yn cadw rhestr aros tan y 30ain o Fedi ym mlwyddyn mynediad yr ysgol.

## 6. Trefniadau Apelio – Cynradd ac Uwchradd

6.1 Bydd yn rhaid i rieni sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod mynediad i wrthod mynediad i'r ysgol ddewisol gyflwyno'r cais apêl i'r awdurdod mynediad priodol o fewn 10 diwrnod gwaith o gael gwybod am y penderfyniad i wrthod mynediad.

6.2 Gwrandewir ar bob apêl mynediad gan baneli apelio annibynnol. Os bydd y panel yn bleidiol i achos y rhieni, rhwymir yr awdurdod mynediad gan y dyfarniad. Bydd y panel yn cyfarfod o fewn 30 diwrnod ysgol o gofnodi'r apêl a rhoddir gwybod i rieni am benderfyniad y panel o fewn 5 diwrnod gwaith wedi i'r panel gyfarfod i ystyried yr apêl yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion. Bydd y panel apeliadau'n ystyried pob apêl yn erbyn penderfyniad awdurdodau mynediad, p'run a yw'n ALl neu'n gorff llywodraethu.

6.3 Os yw rhiant y gwrandawyd ar ei apêl yn credu bod y panel wedi gweithredu'n amhriodol neu'n afresymol wrth ymdrin ag achos, gall y rhiant wneud cwyn ynghylch yr ymchwiliad i'r Comisiynydd dros Weinyddiaeth Leol (Ombwdsman Llywodraeth Leol) neu ymofyn am arolwg cyfreithiol. Nid oes gan Lywodraeth

Cymru unrhyw rym i ystyried cwynion yn erbyn penderfyniad paneli apêl annibynnol.

6.4 Nid yw'r gweithdrefnau apelio'n berthnasol i fynediad meithrin rhan amser.

**7. Addysg ar ôl oed ysgol gorfodol - mynediad i'r 6ed dosbarth**

7.1 Rhoddir blaenoriaeth i ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu'r ysgol berthnasol. Fodd bynnag, ystyrir hefyd geisiadau gan fyfyrwyr o ysgolion eraill yn amodol ar argaeledd lleoedd. Mae gan rieni'r hawl i apelio os gwrthodir lle i'w plentyn.

7.2 Mae manylion pellach, e.e., meini prawf cymhwystra, ar gael yn llawlyfrau blwyddyn 12/13 (h.y., 6ed dosbarth) ysgolion unigol, sydd ar gael yn yr ysgol. Manylir ar y ffactorau sy'n cael eu hystyried ym mharagraffau 2.65 i 2.71 o'r Cod Derbyn i Ysgolion (Cymru).

- Mae adran 8(3) o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi:

*(3) A person ceases to be of compulsory school age at the end of the day which is the school leaving date for any calendar year—*

*(a) if [they] attain the age of 16 after that day but before the beginning of the school year next following,*
*(b) if [they] attain that age on that day, or*
*(c) (unless paragraph (a) applies) if that day is the school leaving date next following his attaining that age.*

7.4 Tan y dyddiad hwnnw:

- Mae'n rhaid i rieni a gwarcheidwaid sicrhau cyfranogiad eu plentyn mewn addysg, yn yr ysgol neu fel arall
- Mae'n rhaid i gynghorau lleol sicrhau darpariaeth addysg addas
- Ni chaiff cyflogwyr gyflogi plentyn yn llawn amser
- Ni chaiff darparwyr hyfforddiant ddarparu hyfforddiant llawn amser a noddir gan lywodraeth.

**8. Gwybodaeth arall sy'n berthnasol i drefniadau mynediad**

8.1 <u>Mynediad i ddisgyblion o du allan i Ynys Môn</u>

Bydd plant sy'n byw y tu allan i Ynys Môn yn cael mynediad yn unol â'r meini prawf datganedig. Dylid gwneud ceisiadau ar-lein i'r Cyngor.

8.2 <u>Mynediad i ysgolion mewn awdurdod arall</u>

Dylai rhieni sy'n byw yn y sir sy'n dymuno anfon eu plant i ysgol a gynhelir gan awdurdod arall ymofyn am fynediad i'r ysgol honno drwy ddilyn y weithdrefn mynediad sydd gan yr awdurdod hwnnw.

8.3 <u>Lleihau meintiau dosbarthiadau (cyfyngiad maint dosbarth babanod)</u>

Mae rheoliadau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gyfyngu meintiau dosbarthiadau babanod lle mae'r mwyafrif o ddisgyblion o fewn ystod oedran derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2 i ddim mwy na 30 o ddisgyblion a hefyd i sicrhau lle bo modd nad yw meintiau dosbarthiadau iau yn mynd dros 30 o ddisgyblion.
Ceir, fodd bynnag, eithriadau i'r rheoliadau hyn (a elwir yn "ddisgyblion eithriedig") y gall ganiatáu mynd dros gyfyngiad 30 disgybl y dosbarth. Mae'r disgyblion hyn fel a ganlyn:

1. Plant gydag un ai Cynllun Datblygu Unigol (CDU) Awdurdod neu Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig sy'n datgan y dylent gael eu haddysgu yn yr ysgol dan sylw (h.y., wedi ei henwi) a chânt eu derbyn i'r ysgol y tu allan i'r cylch mynediad arferol.
2. Plant mewn gofal a phlant mewn gofal blaenorol sy'n cael mynediad y tu allan i'r cylch mynediad arferol.
3. Plant lluoedd arfog y DU pan gânt eu derbyn i ysgol y tu allan i'r cylch mynediad arferol.
4. Plant y gwrthodwyd mynediad iddynt yn gychwynnol i'r ysgol, ond y cynigiwyd lle iddynt yn ddilynol y tu allan i'r cylch mynediad arferol drwy gyfarwyddyd panel apeliadau mynediad, neu oherwydd bod y sawl sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad gwreiddiol yn adnabod bod camgymeriad wedi bod wrth roi trefniadau mynediad yr ysgol ar waith.
5. Plant na allent gael lle mewn unrhyw ysgol addas arall y gall eu derbyn o fewn pellter rhesymol o'u cartref oherwydd eu bod yn symud i'r ardal y tu allan i'r cylch mynediad arferol.
6. Plant sy'n dymuno cael addysg mewn ysgol â chymeriad crefyddol dynodedig a'r ysgol dan sylw yw'r unig ysgol o'r fath o fewn pellter rhesymol i'w cartref.
7. Disgyblion a dderbynnir i'r ysgol o fewn grŵp oedran y mae plant fel arfer yn cael eu derbyn ac:
    - a dderbynnir ar ôl diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol berthnasol, a
    - lle nad yw'r ysgol wedi cyrraedd ei rhif mynediad eto ond sydd eisoes wedi trefnu ei dosbarthiadau, a
    - lle byddai derbyn y plentyn yn golygu y byddai'r ysgol yn gorfod cymryd mesurau perthnasol.
8. Plant sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig, ond sy'n derbyn rhan o'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd.
9. Plant gydag anghenion addysgol arbennig yr addysgir yn arferol mewn uned arbennig mewn ysgol brif ffrwd, ond sy'n derbyn rhan o'u gwersi mewn dosbarth nad ydyw'n arbennig.

Yn y saith cyntaf o'r categorïau hyn, dim ond am y flwyddyn ysgol neu am weddill y flwyddyn ysgol honno y gall y dosbarth fod uwchben 30. Mae'n rhaid cymryd mesurau cymhwyso ar gyfer y flwyddyn ddilynol, neu bydd y dosbarth yn anghyfreithlon o fawr.

8.4 <u>Plant gyda Chynllun Datblygu Unigol (CDU) Awdurdod neu Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)</u>

Mae’r Cyngor ac ysgolion yn dilyn Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 wrth adnabod, asesu a darparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y bydd ar rai plant angen darpariaeth ddysgu ychwanegol sydd y tu hwnt i’r ddarpariaeth y gall yr ysgol brif ffrwd ei chynnig. Bydd y Cyngor yn asesu anghenion disgyblion o’r fath yn unol â’r canllawiau yr amlinellir yn y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021. Ble mae’r asesiad yn dynodi bod hyn yn angenrheidiol, bydd yn trefnu darpariaeth dysgu ychwanegol ar eu cyfer. Cynhwysir y ddarpariaeth hon yn y Cynllun Datblygu Unigol (CDU) Awdurdod ar gyfer y plentyn dan sylw a bydd yn cynnwys enwi ysgol benodol i’r plentyn ei mynychu. Trafodir y ddogfen hon gyda rhieni ac ysgolion. Mae’n nodi anghenion y plentyn a sut a lle y cyfarfyddir â’r anghenion hynny.

Mae gan bob corff llywodraethu lywodraethwr dynodedig gyda chyfrifoldeb dros y Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae gan y rhieni hawl i weld y polisi hwn. Mae gan bob ysgol Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) sy’n goruchwylio gweithrediad dydd i ddydd y polisi a’r gweithdrefnau. Dylai rhieni sy’n dymuno trafod unrhyw agwedd o anghenion dysgu ychwanegol eu plentyn gysylltu gyda CADY yr ysgol neu’r pennaeth.

Gan amlaf, dim ond disgyblion â Chynllun Datblygu Unigol (CDU) Awdurdod a gyhoeddwyd dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 neu Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig fydd ysgol arbennig y Cyngor, sef Canolfan Addysg y Bont yn eu derbyn. Dan amgylchiadau eithriadol, byddent yn derbyn disgyblion yr asesir yn unol â’r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Gweinyddir y weithdrefn Cynllun Datblygu Unigol (CDU) Awdurdod gan y Cyngor a chytunir ar bob mynediad i Ganolfan Addysg y Bont gan y Cyngor.

8.5 Plant ag anableddau

Mae’r Cyngor yn adnabod ei ddyletswydd i ddarparu addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion ag anableddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ar dderbyn ceisiadau ar gyfer plant gydag anableddau, bydd y Cyngor yn gweithio i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn y plentyn a bod addasiadau rhesymol yn cael eu trafod a’u gweithredu cyn gynted ag y bo modd.

8.6 Disgyblion sydd wedi eu gwahardd ddwywaith

Pan fo plentyn wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy, gall rhieni fynegi eu bod yn ffafrio lle mewn ysgol, ond caiff y gofyniad i gydymffurfio â'r dewis hwnnw ei ddileu am gyfnod o ddwy flynedd o'r dyddiad y digwyddodd y gwaharddiad diweddaraf.

Nid yw hyn yn berthnasol i:

- Blant gyda Chynlluniau Datblygu Unigol (CDU) Awdurdod.
- Plant a oedd o dan yr oed ysgol gorfodol pan gawsant eu gwahardd.
- Plant y cawsant eu hail-sefydlu yn dilyn gwaharddiad parhaol.
- Plant a fyddai wedi cael eu hailsefydlu yn dilyn gwaharddiad parhaol pe bai wedi bod yn ymarferol i wneud hynny.

- Plant mewn gofal a phlant mewn gofal blaenorol, lle gwneir y cais am fynediad gan neu ar ran y rhiant corfforedig.

Ystyrir gwaharddiad parhaol yn waharddiad sy'n dod i rym o'r diwrnod ysgol cyntaf pan ddywed y pennaeth wrth y plentyn am beidio â mynychu'r ysgol.

Gall y Cyngor wrthod mynediad ar ran yr ysgol, neu yn achos ysgol gymuned neu ysgol dan reolaeth wirfoddol, gall y corff llywodraethu apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor fel yr awdurdod mynediad i roi mynediad i'r plentyn (gweler y Cod Apeliadau Mynediad Ysgolion am wybodaeth ynglŷn â'r apeliadau hyn). Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn gyfrifol am ddarparu addysg lawn amser addas ar gyfer y plant hyn.

8.7 Plant sy'n anodd eu lleoli

Mae rhan i'w chwarae gan bawb i sicrhau bod plant sy'n anodd eu lleoli, yn arbennig y rhai mwyaf bregus, yn cael mynediad at ysgol addas cyn gynted ag y bo modd. Gall hyn gynnwys rhoi mynediad i blant i ysgolion sydd eisoes yn llawn.

8.8 Plant Personél Lluoedd Arfog y DU a Gweision Eraill y Goron (gan gynnwys diplomyddion)

Bydd y Cyngor yn anelu at liniaru unrhyw anfantais ar gyfer teuluoedd y lluoedd fel y gosodir hwy ar yr ynys a chânt eu trin mor gadarnhaol ag y bo modd a gydag ystyriaeth o anghenion y plant.

Mae plant personél y lluoedd sydd wedi eu lleoli yn RAF y Fali ac yn byw ar y safle wedi'u lleoli yn nalgylch Ysgol y Tywyn, ac Ysgol y Tywyn yw'r ysgol yr ystyrir i fod yr ysgol agosaf at eu cartrefi.

Rhoddir statws eithriedig i blant personél Lluoedd y DU o ran meintiau dosbarthiadau babanod pan gânt eu derbyn i'r ysgol tu allan i'r cylch mynediad arferol.

Mae angen i geisiadau blynyddol a cheisiadau yn ystod y flwyddyn gael eu cyflwyno ynghyd â phrawf swyddogol o benodiad sy'n datgan dyddiad dychwelyd pendant, gyda chadarnhad o'r cyfeiriad newydd lle bynnag y bo modd os gwneir y cais cyn dyddiad y penodiad.

8.9 Cynlluniau cyfnewid athrawon

Os yw plentyn yn mynd dramor i fynd gyda'i riant ar gynllun cyfnewid athrawon, bydd yr ysgol yn sicrhau bod y plentyn yn gallu derbyn ei le wedi dychwelyd. Bydd y plentyn yn aros ar y gofrestr a gellir trin amser i ffwrdd fel "gweithgaredd addysgol a gymeradwyir".

Bydd y Cyngor yn dod o hyd i le i blentyn a fydd yn dod i breswylio yn ei ardal o ganlyniad i gyfranogiad ei riant mewn cynllun cyfnewid athrawon. Mae'r Cyngor yn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer anghenion y plant hyn i sicrhau y gallent dderbyn lle ysgol am hyd y cyfnewidiad, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.

8.10 Trosglwyddiadau o'r sector annibynnol

Bydd ceisiadau'n cael eu trin fel unrhyw rai arall ar gyfer trosglwyddo yn y flwyddyn, ac ymdrinnir â cheisiadau a wneir mewn perthynas â theuluoedd o'r fath yn gadarnhaol fel y caiff y plant hyn fynediad cyn gynted ag y bo modd i'r ysgol agosaf sydd ar gael ac sy'n briodol.

Gall plant ar eu pennau eu hunain gael mynediad i'r DU os gallent ddangos bod ganddynt le mewn ysgol annibynnol, lle telir ffioedd. Lle rhoddwyd caniatâd i blentyn gael mynediad ar y sail honno, ni fydd y Swyddfa Gartref yn arferol yn rhoi estyniad arhosiad, nac yn newid amodau mynediad y plentyn os bydd y plentyn yn trosglwyddo i ysgol gymunedol, wirfoddol neu sefydledig.

Bydd y Cyngor yn cadw hyn i gof wrth ystyried cais am drosglwyddiad mewn perthynas â phlentyn o dramor sy'n flaenorol wedi bod yn mynychu ysgol lle telir ffioedd. Gwirir gwefan y Swyddfa Gartref am y cyngor diweddaraf.

8.11 Ceisiadau a wneir yn y DU ar gyfer plant sy'n byw dramor

Pe digwyddai i'r Cyngor dderbyn cais gan rieni tramor am le ysgol i blentyn nad yw eto'n byw yn y DU, ni fydd y Cyngor o angenrheidrwydd yn gwybod pryd y disgwylir iddo fod yn breswyl yn y DU, neu a fydd cais y rhieni am ganiatâd i ddod i mewn i'r DU wedi bod neu am fod yn llwyddiannus, neu os yw wedi bod, ar ba delerau y rhoddwyd mynediad iddynt. Cymerir yr ystyriaethau hyn i gyfrif wrth ystyried y cais.

8.12 Disgyblion sydd â phasbortau a gyhoeddwyd y tu allan i'r DU

Bydd y Cyngor yn trin ceisiadau ar gyfer plant sy'n dod o dramor yn unol â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd neu reolau'r Swyddfa Gartref ar gyfer dinasyddion Ardal Economaidd Anewropeaidd. Gwefan y Swyddfa Gartref sydd â'r wybodaeth ddiweddaraf a chaiff ei ddefnyddio fel y pwynt cyfeirio cyntaf.

8.13 Gwisg ac offer ysgol

Mae grantiau ar gael i helpu teuluoedd ar incwm isel brynu gwisg ac offer ysgol. Gall dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dderbyn grant gan Lywodraeth Cymru. Am ragor o fanylion, dylid cysylltu â'r Cyngor neu https://www.llyw.cymru/grant-hanfodion-ysgol-help-gyda-chostau-ysgol.

8.14 Dyddiad gadael ysgol

Mae adran 8(3) o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi:

> *(3) A person ceases to be of compulsory school age at the end of the day which is the school leaving date for any calendar year—*
>
> > *(a) if they attain the age of 16 after that day but before the beginning of the school year next following,*
> > *(b) if they attain that age on that day, or*

*(c) (unless paragraph (a) applies) if that day is the school leaving date next following his attaining that age.*

Tan y dyddiad hwnnw:

- Mae'n rhaid i rieni sicrhau cyfranogiad eu plentyn mewn addysg yn yr ysgol
- Ni chaiff cyflogwyr gyflogi plentyn yn llawn amser
- Ni chaiff darparwyr hyfforddiant ddarparu hyfforddiant llawn amser a noddir gan lywodraeth.

8.15 Asiantaethau trais yn y cartref

Bydd plant a gartrefir dros dro dan amddiffyniad asiantaethau trais yn y cartref cymeradwy'n cael eu trin fel rhai yn y dalgylch os yw'r lloches yn disgyn o fewn dalgylch dynodedig yr ysgol, ac os yw'r ffurflen gais yn dod ynghyd â llythyr swyddogol gan yr asiantaeth berthnasol.

8.16 Plant Sipsiwn a Theithwyr

Mae'n rhaid i'r Cyngor, yn statudol, sicrhau bod pob plentyn o oed ysgol gorfodol yn derbyn addysg sy'n briodol i'w hoed, eu gallu ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol arbennig, ac i hybu safonau uchel yn narpariaeth addysg a lles plant. Mae'r goblygiadau hyn yn berthnasol i bob plentyn p'un a ydynt yn byw'n barhaol yn yr ardal ai peidio. Felly, bydd ceisiadau a wneir mewn perthynas â theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu trin yn gadarnhaol fel y rhoddir mynediad i'r plant hyn cyn gynted ag y bo modd yn yr ysgol agosaf sydd ar gael ac sy'n briodol.

8.17 Plant gyda Saesneg fel Iaith Ychwanegol

Bydd ceisiadau ar gyfer plant gyda Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIYL) yn cael eu trin yn gadarnhaol fel y rhoddir mynediad i'r plant hyn cyn gynted ag y bo modd yn yr ysgol agosaf sydd ar gael ac sy'n briodol. Mae'r Cyngor yn darparu cefnogaeth i ysgolion a dylai ysgolion gysylltu â'r Cyngor i ofyn am y fath gefnogaeth a chyngor.

8.18 Symudiad Trwy Drefniant

Gall symudiad trwy drefniant rhwng ysgolion ddigwydd drwy gytundeb yn ymwneud â Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad Ynys Môn a Gwynedd, pan bennir gan y partïon perthnasol y byddai lleoliad mewn ysgol arall yn fwy priodol. Gweler Polisi Symudiad Trwy Drefniant Ynys Môn.

## 9. Gwybodaeth i Rieni

9.1 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod ffurflenni cais a llyfryn gwybodaeth y Cyngor yn cael eu dosbarthu drwy'r ysgolion yn ystod y cylchoedd mynediad blynyddol. Bydd y ddogfennaeth hon hefyd ar gael ar wefan y Cyngor drwy gydol y flwyddyn, ac yn cynnwys amserlen ar gyfer y broses mynediad sy'n amlinellu'r dyddiadau perthnasol ar gyfer derbyn a phenderfynu ar geisiadau ac ar gyfer derbyn apeliadau. Bydd yr wybodaeth ar gael ddim hwyrach na'r 1af o Hydref ym mlwyddyn ysgol y cyhoeddiad.

9.2 Mae Polisi Mynediad y Cyngor ar gael ar gais.

9.3 Gellir cysylltu â'r Cyngor a'i holl ysgolion am wybodaeth mewn perthynas â threfniadau mynediad ar unrhyw amser o'r flwyddyn.

**10. Gwybodaeth dwyllodrus neu fwriadol gamarweiniol**

10.1 Pan fo rhiant yn rhoi gwybodaeth dwyllodrus neu fwriadol gamarweiniol er mwyn cael lle mewn ysgol ar gyfer eu plentyn, mae gan y Cyngor yr hawl i dynnu'r cynnig o le yn ei ôl. Lle tynnir lle yn ei ôl, gellir ailgyflwyno'r cais ac os caiff ei wrthod, mae gan y rhiant yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.

10.2 Pan amheuir bod rhiant wedi rhoi gwybodaeth dwyllodrus neu fwriadol gamarweiniol er mwyn cael lle mewn ysgol ar gyfer eu plentyn, bydd y Cyngor yn gohebu â'r holl rieni sydd wedi llwyddo i gael lle i'w plant yn yr ysgol honno i ymofyn am dystiolaeth o'r wybodaeth a roddwyd ar y ffurflenni cais.

10.3 Mewn achos o roi prawf o gyfeiriad, ystyrir bod yr hyn a ganlyn yn berthnasol wrth sefydlu prif breswylfa'r plentyn: bil nwyddau diweddar, bil treth cyngor, datganiad banc. Mae angen i'r dystiolaeth gynnwys cyfeiriad rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol y plentyn.

11. **Fforwm Mynediad**

Mae Ynys Môn wedi sefydlu Fforwm Mynediad sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Ei amcan yw sicrhau system mynediad deg nad yw o anfantais i'r un plentyn o'i gymharu â'r llall ac sy'n syml ac yn hawdd i'w deall i rieni. Mae'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiad â'r Cod Derbyn i Ysgolion (005/2013), ac os ydynt yn ystyried bod trefniadau mynediad yn annheg neu heb eu gwneud yn unol â'r cod hwn, ac na allent ddatrys y mater yn lleol, gallent gyfeirio'r mater i Weinidogion Cymru i'w ystyried.